Sut i wneud casŵ gyda rholyn papur tŷ bach

Bydd angen…

- Oedolyn i dy helpu di - pwysig iawn!
- Rholyn tŷ bach gwag
- Papur gwrthsaim
- Siswrn
- Bandiau lastig
- Dewisol: pinnau ysgrifennu, pensiliau, creonau, paent neu unrhyw beth arall sydd wrth law i addurno'r casŵ!

Cam un (dewisol):

Cer ati i addurno'r rholyn tŷ bach gwag!

Cam Dau:

Gofynna i oedolyn dorri darn sgwâr o faint canolig o'r papur gwrthsaim gyda'r siswrn

Cam Tri:

Plyga'r papur gwrthsaim dros un pen y rholyn ddal yn sownd gyda band lastig.

Cam Pedwar:

Amser i wneud sŵn! Dechreua hymian neu ganu i mewn i'r casŵ i wneud sŵn!

Yr wythnos hon, cer i wrando ar bobl broffesiynol yn gwneud hynny: rydym wedi anfon dolen i'r sianel YouTube *Much Kazoo About Nothing*, lle mae un dyn yn chwarae caneuon enwog gan ddefnyddio sawl casŵ ar yr un pryd!